

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held
at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 12fed Mehefin, 2023 at 2.00 pm**

PRESENT: County Councillor Ann Webb (Chairman)
County Councillor Peter Strong (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Meirion Howells, Su McConnel,
Peter Strong, Armand Watts, Laura Wright, Rachel Buckler,
Tudor Thomas and Alistair Neill

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
John Pearson	Rheolwr Democratiaeth Leol
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth

APOLOGIES:

County Councillor Maria Stevens

1. Nodi penodi'r Cynghorydd Sir Ann Webb yn Gadeirydd.

Nodwyd.

2. Penodi Is-gadeirydd.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Peter Strong yn Is-Gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant

Dim

4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2023. Wrth wneud hynny, nodwyd y dylai'r paragraff canlynol nodi Medi 2026:

Roedd pryder ynghylch y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) yn cael ei ddisodli gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (SAC), o ystyried y byddai SACRE yn dal i fodoli tan fis Medi 2024. Sicrhodd y Prif Swyddog yr Aelodau y byddai SAC a SACRE yn cael eu cynnwys dan un pwyllgor, a allai gael ei alw'n SAC/SACRE. Dywedodd y Swyddog Monitro y dylid cyfeirio unrhyw bryderon pellach at y swyddogion perthnasol.

5. Sianel Teams a Chatbot Pob Cynghorydd

Cyfeiriodd y Rheolwr Democratiaeth Leol at fan penodol ar gyfer Aelodau ar y fewnwyd lle'r ydym yn uwchlwytho dogfennau megis canllawiau, hyfforddiant anwytho a recordiadau o seminarau. Hysbyswyd yr aelodau bod sianel Teams benodol wedi'i chreu ac y bydd yn cael ei chyflwyno'n weddol fuan a chawsant arddangosiad.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 12fed Mehefin, 2023 at 2.00 pm

Gwahoddwyd yr aelodau i ddefnyddio'r sianel am ychydig wythnosau a rhoi adborth.

O ran adnoddau cydnabuwyd bod datblygiad y system yn caniatáu mynediad i wybodaeth y tu allan i oriau ac mai dyma'r ffordd ddigidol o symud ymlaen. Mae popeth wedi'i osod i fyny a byddai bellach yn fater o fonitro a diweddaru.

Roedd ychydig o bryder ynghylch y defnydd o AI.

Croesawodd y Pwyllgor y sianel a'r chatbot ac roedd yn edrych ymlaen at ei defnyddio. Cytunwyd y byddai diweddariad yn dod i'r cyfarfod nesaf.

6. Pwyllgorau Ardal

Agorodd y Cadeirydd drafodaeth ar y posibilrwydd o ailsefydlu Pwyllgorau Ardal.

Roedd y Cyngor Cymuned Lleol wedi ystyried hwn yn fforwm defnyddiol ac roeddynt yn awyddus i ailsefydlu Pwyllgor Ardal Gwy Isaf.

Roedd safbwyntiau cymysg ar Bwyllgorau Ardal:

- Roedd y Pwyllgorau Ardal yn fwy o siop siarad ac nid oeddent yn ddefnydd effeithiol o amser.
- Roeddent wedi bod yn ddefnyddiol pan oedd grantiau'n cael eu rhoi i grwpiau lleol
- Roedd presenoldeb swyddogion wedi bod yn broblemus.
- Roedd statws y cyfarfod yn golygu nad oeddent yn cael eu cymryd o ddifrif.
- Roedd y materion a oedd yn cael eu codi yn bwysig
- Gall Pwyllgorau Craffu wahodd partneriaid allweddol perthnasol er mwyn cael ddiweddariadau.
- Mae Fforwm Ardal Glannau Hafren wedi'i sefydlu ac yn cael ei ystyried yn llwyddiant.

Penderfynwyd y dylai Aelodau allu sefydlu fforwm anffurfiol, ond ni fyddai hyn yn digwydd yn gyffredinol a dim ond pan fo angen.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Hydref 2023

Nodwyd.

Cytunwyd i drefnu taith o amgylch y Sir ym mis Medi.

The meeting ended at 2.48 pm